THE ROYAL BRITISH LEGION

LLENG BRYDEINIG BRENHINOL

They shall grow not old,
as we that are left grow old:
Age shall not weary them,
nor the years condemn.
At the going down of the sun
and in the morning
We will remember them.

Allan o 'For the Fallen' by Laurence Binyon

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (GLF 271)

Lleng Brydeinig Brenhinol

Mae'r Lleng Brydeinig Brenhinol yn darparu cefnogaeth ariannol, cymdeithasol ac emosiynol i bobl Gwasanaeth, boed gynt neu gyfredol, a'u dibynwyr. Gwnawn hyn oherwydd ein bod yn credu bod gyrfa yn y Lluoedd Arfog yn wahanol i unrhyw un arall. Mae pobl Gwasanaeth yn cytuno i aberthu rhai hawliau dinesig i ddilyn gorchmynion ac i osod eu hunain mewn perygl i amddiffyn eraill. Yn ei thro, mae ein cenedl yn addo i'w helpu a'u cefnogi hwy a'u teuluoedd pan fydd angen fwyaf arnynt – pan na fyddwn ni'n gwneud hyn, mae'r Lleng yn ymyrryd.

Mae'r Lleng yn un o brif ymgyrchwyr ar gyfer gwelliannau mewn deddfwriaeth, polisïau cyhoeddus a gwasanaethau stadudol. Mae rhwydwaith cenedlaethol o wirfoddolwyr y Lleng a staff yn gweithio'n lleol i helpu'r rhai sydd mewn angen. Darparwn gyllid ar gyfer y rhai sydd yn byw mewn tlodi a help i eraill i fyw'n annibynnol. Darparwn ofal preswyl i bobl hyn, wan ac yn cynnig gwasanaethau i wella ansawdd bywyd pobl a theuluoedd unig neu ar wahân. Hefyd byddwn yn helpu eraill i ddatblygu eu sgiliau gyrfaol i ddod o hyd i waith cynaliadwy.

Y Lleng yw gwarchodwr cenedlaethol cofio – byddwn yn dweud wrth bobl o bob oedran am bwysigrwydd y rheiny o'r Lluoedd Arfog Prydeinig sydd wedi gwneud yr aberth eithaf, a'r rheiny a ymladdodd ac sydd yn ymladd am y rhyddid a fwynhawn ni. Fel rhan o'r gwaith hwn i hybu Cofio, roedd y Lleng yn gyfrifol am ailddechrau cadw Distawrwydd Dau Funud am 11 o'r gloch ar 11 Tachwedd, Diwrnod Cofio, bob blwyddyn.

Mewn blwyddyn nodweddiadol mae'r Lleng yn

Gofalu am **470 o bobl** mewn 7 Cartref Gofal Y Lleng Brydeinig Brenhinol

Darparu toriadau amser byr ar gyfer **4,500 o bobl**

Cynrychioli **3,500** o bensiynwyr rhyfel mewn tribiwnlysoedd

Helpu bron i **3,000** o bobl i gyflogaeth

Yn cynhyrchu ac yn dosbarthu dros **36 miliwn o babïau**

Cyd-lynio **200,000** o ymweliadau i ysbytai i weld pobl sydd ac a fu'n gwasanaethu

Ymgyrchu ar faterion fel Syndrôm Rhyfel y Gwlff

Mynd â dros **1,500** o ymwelwyr i Fynwentydd Rhyfel

Mae'r Lleng yn cynnig ystod o wasanaethau anelwyd yn arbennig at deuluoedd pobl sydd ac a fu'n gwasanaethu. Fel arfer fe gymer y gefnogaeth hon ffurf help ymarferol ar unwaith – grantiau argyfwng, cefnogaeth addysgol, arian ar gyfer teuluoedd mewn amgylchiadau ariannol anodd, help i deuluoedd gyda phlant anabl neu ddifantais a chefnogaeth emosiynol i'r rhai sydd wedi colli aelodau o'r teulu oedd yn gwasanaethu neu a fu'n gwasanaethu.

WWW.BRITISHLEGION.ORG.UK